

Mae gan yr Ardd amrywiaeth eang o goed sy'n edrych yn hyfryd yn yr hydref
Dilynwch y rhifau ar y llwybr byr hwn a chewch chi gwrdd â rhai ohonyn nhw

Metasequoia glyptostroboides

Coeden Goch y Wawr

Tan 1941, meddylwyd bod y goeden hon yn ddiiflanedig. Adnabyddwyd ef yn wreiddiol fel ffosil, ac wedyn darganfyddwyd goeden enfawr yn tyfu ger creirfa grefyddol yn Tsieina. Casglwyd hadau o'r goeden hon, ac mae hi'n awr yn goeden addurniadol boblogaidd mewn parciau a gerddi ar draws y byd.

Gellwch ddod o hyd i gylch o Goed Coch y Wawr yn amgylchynu ein cerflun ddŵr Scaladaqua Tonda ar Y Rhodfa.

Acer griseum Masarnen Risgl Bapur

Dowch chi o hyd i'r goeden anhygoel yr olwg hon sy'n frodorol i Tsieina ar hyd Y Rhodfa

Mae ei rhisgl oren lliw copor yn pilio mewn cyrliau mawrion sy'n aros ar y goeden yn hytrach na disgyn i'r llawr.

Cyferbynna hyn â'i rhisgl mewnol rhosog brown, a'i lliwiau oren i goch hydrefol.

Carpinus betulus Oestrwydden

Mae nifer o oestrwydd aeddfed yn yr Ardd – ac mae cylch o oestrwydd yn dominyddu canol yr Ardd Ddeu-Fur. Mae ei dail yn edrych fel rhai ffawydden, ond gydag ymylon geirwon. Mae hadau o'i gwtau wŷn bach yn bwydo'r pathew prin, sy'n byw yn y coed o amgylch yr Ardd



Betula utilis

Bedwen Himalaiaidd

Mae llinell hyfryd o goed bedw ar hyd y llwybr yn yr Ardd Ddeu-Fur. Mae ganddynt risgl gwyn trawiadol, ac mae rhai ffyngau hynod ddiddorol yn ymddangos o amgylch eu gwaelodion yn yr hydref.

Defnyddiwyd bedw arian Prydeinig i wneud coesau ysgub, ond defnyddiwyd rhisgl bedw Himalaiaidd yn India er mwyn ysgrifennu ysgrythurau Sansgrit hynafol.

Quercus robur

Derwen Coesyngog

Enillodd y goeden dderwen hon, sy'n 70 mlwydd oed erbyn hyn, y gystadleuaeth Coeden y Flwyddyn Cymru yn 2015! Pam? Bydd yr arwydd nesaf i'r goeden yn dweud y stori lawn.

Mae yna ddwy rywogaeth frodorol o goed derw yng Nghymru. Mae gan fes coed dderw pedunculate coesau byr, yn wahanol i'r dderwen mes di-goes. Edrychwch ar fes y goeden dderw hon i ddyfarnu pa rywogaeth ydyw.

Liriodendron tulipifera

Coeden Diwlip

Yn frodorol o Ddwyrain yr Unol Daleithiau, mae coed tiwlip yn goed sy'n tyfu'n gyflym ac yn cyrraedd taldra uchel. Mae ganddynt ddail nodweddiadol sy'n troi'n hyfryd o liwgar yn yr hydref.

Ry'n ni wedi plannu'n ddiweddar ddau goeden diwlip, er mwyn fframio'r llwybr o'r Bloc Stablau i Ardd Wallace.

Acer palmatum

Y Fasarnen

Mae dail y rhan fwyaf o amrywiaethau'r Aser yn troi'n goch ac yn oren godidog bob hydref. Y Fasarnen Siapaneaidd yw'r hyfrytaf o'r masarn efallai, ac mae gennym ddwy esiampl ardderchog ym mhen Gardd Wallace. Mae'r rhain yn gyltifarau 'atropurpureum', sy'n nodedig am eu lliwiau hydrefol coch fel gwin.



***Cercidiphyllum japonicum* Catswra**

Dyw'r goeden hon ddim yn unig yn cynhyrchu lliwiau oren, melyn a choch atyniadol ar hyd Y Rhodfa, ond mae ei dail syrthiedig yn cynhyrchu arogl hyfryd hefyd. Beth yw'r arogl hwnnw? Mae rhai'n meddwl ei bod yn arogl o garamel, eraill o gand-i-fflos.

Yn frodor o Tsieina a Siapan, gall y goeden Catswra dyfu i hyd at 45m o daldra



***Aesculus hippocastanum* Cneuen Gastan**

Mae chwarae concyrs yn gêm blant draddodiadol, sy'n cael ei harfer yn llai nag oedd hi wrth i blant chwarae'n llai yn yr awyr agored. Ry'n ni'n casglu concyrs o dair coeden gnau castan yr Ardd ar gyfer ein hwythnos o weithgareddau hydrefol – mae ein cystadleuaeth Concyr Boncyrs yn boblogaidd dros ben. Cyflwynwyd coed cnau castan i Brydain o ardal y Balcanau yn y 1600au.

***Taxodium distichum* Cypreswydden Moel**

Os ewch chi ar hyd ein llwybrau ar ymyl ein llynnoedd yn ystod yr hydref, fe ddewch chi ar draws rai golygfeydd syfrdanol o liwiau hydrefol.

Mae gennym amrywiaeth o rywogaethau coed a phrysgwydd, gyda nytiau asgellog, ceirios, cyll ystwyth, a'r gypreswydden moel hon, ymhlith y rhai mwyaf prydfarth.

Roedd coedwigoedd o gypreswydden moel unwaith yn dominyddu ardaloedd enfawr o gorstir yn Fflorida.

